*Statws* This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 961 (Cy. 244)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Medi 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *3 Hydref 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 39(1)(g), 39(2) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau) (Cymru) 2017 a deuant i rym ar 2 Ebrill 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

mae i "y tribiwnlys" ("*the tribunal*") yr un ystyr ag yn adran 189 o'r Ddeddf.

### Gwybodaeth sydd i gael ei chynnwys ym mhob hysbysiad o dan adran 39(1) o'r Ddeddf

**3.** Rhaid i hysbysiad o dan adran 39(1) o'r Ddeddf gynnwys—

(a) enw'r darparwr gwasanaeth;

(b) enw'r gwasanaeth rheoleiddiedig a'r math o wasanaeth rheoleiddiedig y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

(c) y man y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef neu'r mannau y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hwy;

(**1**) 2016 dccc 2.

(d) y dyddiad yr anfonir yr hysbysiad; ac

(e) y paragraff yn adran 39(1) o'r Ddeddf neu yn rheoliad 10 yr anfonir yr hysbysiad odano.

**Gwybodaeth sydd i gael ei chynnwys mewn hysbysiad o dan adran 39(1)(a) o'r Ddeddf**

**4.** Yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 3, rhaid i hysbysiad o dan adran 39(1)(a) o'r Ddeddf gynnwys y canlynol—

(a) y dyddiad y cymerodd canslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth effaith; a

(b) naill ai—

(i) pan fo hysbysiad yn ymwneud â phenderfyniad i ganslo a wneir gan Weinidogion Cymru yn dilyn hysbysiad gwella a roddir o dan adran 16 o'r Ddeddf, y sail dros ganslo; neu

(ii) pan fo hysbysiad yn ymwneud â chanslo yn dilyn cais a wneir o dan adran 14 o'r Ddeddf, y rheswm a roddir gan y darparwr gwasanaeth dros ganslo'r cofrestriad.

**Gwybodaeth sydd i gael ei chynnwys mewn hysbysiad o dan adran 39(1)(b) o'r Ddeddf**

**5.** Yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 3, rhaid i hysbysiad o dan adran 39(1)(b) o'r Ddeddf gynnwys y canlynol—

(a) y dyddiad y cymerodd amrywiad cofrestriad y darparwr gwasanaeth effaith; a

(b) naill ai—

(i) pan fo hysbysiad yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn dilyn hysbysiad gwella a roddir o dan adran 16 o'r Ddeddf, y sail dros amrywio; neu

(ii) pan fo hysbysiad yn ymwneud ag amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth yn dilyn cais a wneir o dan adran 11 o'r Ddeddf, y rheswm a roddir gan y darparwr gwasanaeth dros yr amrywiad.

**Gwybodaeth sydd i gael ei chynnwys mewn hysbysiad o dan adran 39(1)(c) o'r Ddeddf**

**6.** Yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 3, rhaid i hysbysiad o dan adran 39(1)(c) o'r Ddeddf gynnwys y canlynol—

(a) y dyddiad y gwnaed y gorchymyn; a

(b) y dyddiad y cymerodd y gorchymyn effaith neu y bydd y gorchymyn yn cymryd effaith, os yw'n wahanol.

**Gwybodaeth sydd i gael ei chynnwys mewn hysbysiad o dan adran 39(1)(d) o'r Ddeddf**

**7.** Yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 3, rhaid i hysbysiad o dan adran 39(1)(d) o'r Ddeddf gynnwys y canlynol—

(a) enw'r unigolyn cyfrifol y mae ei ddynodiad wedi ei ganslo;

(b) y sail dros ganslo'r dynodiad; ac

(c) y dyddiad y cymerodd y canslo effaith, os yw'n wahanol.

**Gwybodaeth sydd i gael ei chynnwys mewn hysbysiad o dan adran 39(1)(e) o'r Ddeddf**

**8.** Yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 3, rhaid i hysbysiad o dan adran 39(1)(e) o'r Ddeddf gynnwys y canlynol—

(a) enw'r person y mae achos wedi ei ddwyn yn ei erbyn;

(b) y dyddiad y cychwynnwyd yr achos;

(c) y drosedd o dan Ran 1 o'r Ddeddf (neu a ragnodir mewn rheoliadau a wneir odani) yr honnir ei bod wedi ei chyflawni; a

(d) dyddiad y gwrandawiad llys cyntaf, os yw'n hysbys.

**Gwybodaeth sydd i gael ei chynnwys mewn hysbysiad o dan adran 39(1)(f) o'r Ddeddf**

**9.** Yn ychwanegol at yr wybodaeth a nodir yn rheoliad 3, rhaid i hysbysiad o dan adran 39(1)(f) o'r Ddeddf gynnwys y canlynol—

(a) enw'r person y mae hysbysiad cosb wedi ei roi iddo;

(b) y dyddiad y dyroddwyd yr hysbysiad cosb; ac

(c) y drosedd y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod wedi ei chyflawni.

**Hysbysu am bethau rhagnodedig o dan adran 39(1)(g) o'r Ddeddf**

**10.** Y pethau a ragnodir at ddiben adran 39(1)(g) o'r Ddeddf yw—

(a) apêl gan y darparwr gwasanaeth i'r tribiwnlys yn erbyn—

(i) canslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth;

(ii) amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth drwy ddileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu fan y mae'r darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef;

(iii) gwneud gorchymyn gan ynad heddwch o dan adran 23 o'r Ddeddf; neu

(iv) canslo dynodiad unigolyn cyfrifol o dan adran 22 o'r Ddeddf;

(b) penderfyniad y tribiwnlys mewn cysylltiad ag unrhyw apêl a wneir iddo gan ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r amgylchiadau a nodir ym mharagraff (a);

(c) pan fo achos wedi ei ddwyn yn erbyn person mewn cysylltiad â throsedd o dan Ran 1 o'r Ddeddf (neu a ragnodir mewn rheoliadau a wneir odani)—

(i) tynnu achos yn ôl;

(ii) penderfyniad y llys yn yr achos;

(iii) apêl yn erbyn penderfyniad y llys; a

(iv) canlyniad yr apêl.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

27 Medi 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 39(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu pob awdurdod lleol odanynt pan fydd penderfyniadau rheoleiddiol penodol wedi eu gwneud mewn cysylltiad â chofrestriad darparwr gwasanaeth.

Mae adran 39(1)(g) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi amgylchiadau pellach y bydd y ddyletswydd i hysbysu awdurdodau lleol yn gymwys odanynt.

Mae adran 39(2) o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch unrhyw wybodaeth bellach y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiadau o'r fath.

Mae rheoliad 3 yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys ym mhob hysbysiad a wneir o dan adran 39(1). Mae rheoliad 4 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch canslo cofrestriad darparwr gwasanaeth. Mae rheoliad 5 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch amrywio cofrestriad darparwr gwasanaeth drwy ddileu o'r cofrestriad wasanaeth rheoleiddiedig neu fan y mae'r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef. Mae rheoliad 6 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch gwneud gorchymyn gan ynad heddwch o dan adran 23 o'r Ddeddf (canslo ar frys neu amrywio ar frys drwy ddileu gwasanaeth neu fan). Mae rheoliad 7 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch canslo dynodiad unigolyn cyfrifol o dan adran 22 o'r Ddeddf. Mae rheoliad 8 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch achosion sy'n cael eu dwyn yn erbyn person mewn cysylltiad â throsedd o dan Ran 1 o'r Ddeddf neu reoliadau a wneir odani. Mae rheoliad 9 yn nodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n ofynnol ei chynnwys mewn hysbysiad ynghylch hysbysiad cosb a roddir o dan adran 52 o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 10 yn nodi'r pethau pellach a ragnodir at ddibenion adran 39(1)(g) o'r Ddeddf. Gwneir darpariaeth ynghylch apelau a wneir gan ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â'r pethau a nodir yn adran 39(1)(a) i (d) a chanlyniad unrhyw apêl. Gwneir darpariaeth hefyd ynghylch canlyniad achosion am droseddau sy'n cael eu dwyn gan Weinidogion Cymru o dan Ran 1 o'r Ddeddf (neu a ragnodir mewn rheoliadau a wneir odani).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.